**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 15 Ionawr 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol
Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
(eitem 4 ar yr agenda)

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

Dim

**2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**(i) Dydd Mawrth 11 Rhagfyr 2001 (Terfynol) - BC361-01**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) Dydd Mawrth 8 Ionawr 2002 (Drafft) - BC8-02**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd un mân-ddiwygiad a gâi ei ymgorffori yn y fersiwn terfynol a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n codi (8 Ionawr 2002 - BC8-02)**

3.1 **Paragraff 3.3** Dosbarthodd y Trefnydd farn a dderbyniodd gan y Cwnsler Cyffredinol ar gylch gwaith y Pwyllgor Busnes i ystyried defnydd y Cabinet o'r weithdrefn Weithredol. Dywedodd fod y cyngor yn cadarnhau ei farn nad oedd gan y Pwyllgor rôl yn y materion hyn. Dywedodd y Dirprwy

Lywydd fod y Pwyllgor Busnes yn bryderus ynghylch gweithdrefnau'r Cynulliad wrth gynnal ei fusnes. Yn ei farn ef roedd hyn yn cynnwys sicrwydd fod y weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio'n briodol. Yn ôl Adran 67(1) Deddf Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol i'r "pwyllgor gweithredol" (y Cabinet) benderfynu pryd y byddai'r weithdrefn hon yn cael ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyn yng nghofnodion y Cabinet. Dywedodd y Trefnydd fod y Cabinet yn gwneud penderfyniadau o'r fath drwy ohebiaeth; roedd yn ofynnol cael cymeradwyaeth o leiaf pump o Weinidogion. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried cyngor y Cwnsler Cyffredinol ac oedodd rhag gwneud penderfyniad ar y mater tan y cyfarfod nesaf.

*3.1* **Paragraff 3.4** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod bellach wedi derbyn y llythyr yn esbonio pam bod Rheoliadau Grant Menter Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru) 2001 wedi'u gwneud o dan y weithdrefn Weithredol. Fodd bynnag, nid oedd y llythyr yn esbonio pam bod y penderfyniad i ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol wedi'i wneud chwe mis cyn gwneud y rheoliadau. Gofynnodd a fyddai'n bosibl yn y dyfodol rhoi gwybod i'r Aelodau pa rannau o'r weithdrefn arferol oedd yn cael eu datgymhwyso o dan Reol Sefydlog 22.27 pan oedd y weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio. **Gweithredu: Marion Stapleton i ystyried ac adrodd yn ôl.**

3.3 Dywedodd Jocelyn Davies ei bod ar ddeall bod Gorchymyn pysgodfeydd môr a wnaed gan y Cynulliad wedi cael ei herio'n llwyddiannus yn y llysoedd. Dywedodd fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth wedi mynegi pryderon ynghylch y gorchymyn a gofynnodd am eglurhad o'r sefyllfa. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n gwneud ymholiadau ac yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.
**Gweithredu: y Trefnydd**

3.4 **Paragraff 3.5** Dywedodd Marie Knox fod mater ystyriaeth o is-ddeddfwriaeth gan y pwyllgor pwnc wedi'i roi ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf o Banel y Cadeiryddion ar 22 Ionawr.

3.5 **Paragraff 11.1** Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi ysgrifennu at yr Aelodau yn eu hatgoffa o'r amgen i ufuddhau i'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr. Dywedodd y Trefnydd y gofynnwyd i aelod o'i Blaid dynnu'n ôl y gair "llwfr" yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 10 Ionawr er na ofynnwyd i Aelod arall dynnu'n ôl y gair "pwdl". Gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am benderfynu ynghylch y defnydd o iaith amhriodol a holodd a fu anghysondeb. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei bod yn ofynnol yn ôl y Rheolau Sefydlog i'r Aelodau osgoi defnyddio iaith sarhaus. Dywedodd Paul Silk na fyddai'n briodol cynnal rhestr o dermau sarhaus ac mai mater i'r Cadeirydd oedd gwneud penderfyniadau o'r fath yn yr amgylchiadau arbennig hynny.

## <u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>

- Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) 2002 (BC10-02)

- Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002 (BC11-02)

- Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002 (BC12-02)

- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi Gwledig) 2002 (BC13-02)

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2002 (BC19-02)

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapurau BC10-02 i BC13-02 a BC19-02 a oedd yn rhoi cyngor ar drin y gorchmynion uchod.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod rhai o’r papurau yn dal i beidio â darparu’r holl wybodaeth a oedd yn ofynnol ynghylch ystyriaeth gan y pwyllgorau pwnc.  Dywedodd Marion Stapleton fod y dogfennau dan sylw wedi’u paratoi cyn y Nadolig.

<u>BC10-02, BC11-02 a BC19-02</u>

4.2 Dywedodd aelodau’r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd  eu bod yn hapus gyda’r cynigion i beidio ag anfon y Gorchmynion drafft hyn i’r pwyllgorau pwnc a chytunwyd y dylent ddilyn y weithdrefn gyflymach.  **Yn dilyn hynny penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r Gorchmynion hyn i’r pwyllgorau pwnc.**

<u>BC12-02 a BC13-02</u>

4.3 Gofynnodd Jocelyn Davies a ellid anfon BC12-02 i bwyllgor pwnc oherwydd ei bwysigrwydd.  Gofynnodd Jonathan Morgan a allai BC13-02 hefyd gael ei anfon i bwyllgor pwnc.  Cytunodd y Pwyllgor y dylid anfon y ddau orchymyn i’r pwyllgorau pwnc os oedd modd gwneud hyn heb amharu ar y dyddiadau cychwyn arfaethedig.  Dywedodd Alun Jenkins fod angen amser ar yr awdurdodau lleol i baratoi’r rheoliadau.  Cytunodd y Trefnydd i gael golwg ar y sefyllfa gyda’i gyd-weithwyr ac i adrodd yn ôl i’r Dirprwy Lywydd mewn digon o amser iddo wneud ei benderfyniadau cyn ystyried y Datganiad Busnes yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.  Fodd bynnag, mynegodd bryder fod gormod o bwyslais ar y broses yn hytrach na chydnabod yr angen i wneud deddfwriaeth o fewn cyfraddau amser priodol.  Dywedodd Jonathan Morgan nad oedd yn ddigonol dweud fod deddfwriaeth wedi’i ystyried gan bwyllgor pwnc am fod cyfeiriad at hynny yn Adroddiad y Gweinidog.  Nid oedd hyn y graffu effeithiol. Dywedodd Peter Black y byddai’n cefnogi’r syniad y dylai fod gan bwyllgorau pwnc eitem ar wahân ar yr agenda i ystyried is-ddeddfwriaeth.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai Panel y Cadeiryddion yn ystyried yr holl faterion hyn yn ei gyfarfod nesaf.  **Yn dilyn hynny penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r Gorchmynion hyn i bwyllgorau pwnc.**

## <u>5.  Cyngor i’r Cynulliad ar weithdrefnau</u>

- Y Weithdrefn o ran Teyrngedau Coffa a Mynegi Cydymdeimlad (BC243-01)

5.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur uchod a oedd yn disgrifio'r weithdrefn o fewn y Cynulliad Cenedlaethol o ran talu teyrngedau neu fynegi cydymdeimlad ar farwolaeth Aelodau'r Cynulliad, gwleidyddion amlwg eraill ac Aelodau blaenllaw o'r Teulu Brenhinol.  Cytunwyd y byddai'r Rheolwyr Busnes yn dod ag unrhyw sylwadau a wnaed gan eu grwpiau i'r cyfarfod yr wythnos nesaf fel y gallai'r Pwyllgor anfon unrhyw bwyntiau drafftio cytûn ymlaen i'r Llywydd.

- Datganiad ar yr Amserlen (BC18-02)

5.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur uchod a oedd yn amlinellu'r amserlen ar gyfer busnes y Cynulliad hyd at doriad hanner tymor Mehefin 2002.  Gofynnodd Marion Stapleton am i unrhyw sylwadau gael eu rhoi iddi mewn da bryd i'w cynnwys cyn cyflwyno'r papur ar 17 Ionawr.  Os byddai unrhyw sylwadau arwyddocaol byddai'r papur yn dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

## 6. Pwyllgorau

- Canllawiau Pwyllgorau:  Paratoi a Chytuno ar Adroddiadau Pwyllgorau (BC14-02)

6.1  Cyflwynodd Marie Knox y papur uchod i'r Pwyllgor.  Dywedodd fod y papur yn cynnwys gweithdrefn ffurfiol i alluogi'r Aelodau gofnodi eu hanghytundeb.  Roedd hyn mewn ymateb i gais gan Banel y Cadeiryddion.  Cynigiodd Jonathan Morgan fân-ddiwygiad yn y drafftio a chytunwyd ar hynny.

- Cais gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (BC15-02)

6.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am gael defnyddio ei slot ar gyfer gweithgareddau anffurfiol ar 31 Ionawr ar gyfer cyfarfod ffurfiol.  Cytunwyd i hyn.

## 7. Busnes ar y Gweill

### Busnes yr Wythnos Hon (BC16-02)

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC359-01 a oedd yn rhoi manylion am y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd fod y busnes ar gyfer yr wythnos honno fel yr amlinellwyd, gyda datganiad gan Sue Essex ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ychwanegiad posibl.  Roedd hwn yn fater pwysig ac os na wnaed y datganiad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw byddai'n cael ei gynnwys yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf.

### Datganiad Busnes Drafft (BC17-02)

7.3 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Datganiad Busnes Drafft (BC17-02). Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y Trefnydd y byddai'r ddadl ar Ganolfan Mileniwm Cymru a amserlennwyd ar gyfer 22 Ionawr yn cynnwys ystyriaeth o Drafodiad Hysbysadwy o dan Reol Sefydlog 19.

- Gofynnodd Jonathan Morgan am awr a hanner ar 22 Ionawr i drafod Adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Addysg Uwch yn hytrach nag awr fel sydd wedi'i amserlennu ar hyn o bryd.  Dywedodd y Trefnydd mai dadl ar adroddiad y Pwyllgor oedd hon a bod ymateb y Llywodraeth i ddod eto.

- Dywedodd Jonathan Morgan y byddai'n hoffi gweld dadl ar y Mesur Addysg yn fuan.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r aelodau gael fersiwn diweddar o'r Mesur cyn y ddadl.  Dywedodd y Trefnydd y gallai cynigion cyfredol i ddiwygio Ty'r Cyffredin arwain at y Cynulliad yn cael mwy o sgôp i ystyried deddfwriaeth sylfaenol.

- Dywedodd Jonathan Morgan a Jocelyn Davies y gallai cael dadleuon gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Cymru ar 29 Ionawr achosi anawsterau.

- Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y sylwadau hyn.

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ddydd Mawrth 22 Ionawr, dydd Mawrth 29 Ionawr a dydd Mawrth 5 Chwefror oedd y dylai fynd rhagddo fel yr amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

**9.  Diwygio'r Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

11.1   Dywedodd Peter Black ei fod yn bryderus na chaniatawyd digon o amser i Mick Bates siarad ar y datganiad ar y Mesur Addysg yr wythnos diwethaf.  Roedd prif siaradwyr y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru wedi gwneud cyfraniadau hir ond gofynnwyd i Mick Bates gwtogi ar ei araith.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid caniatáu i bob prif siaradwr roi rhagarweiniad byr cyn gofyn ei gwestiwn cyntaf.  Byddai'n rhoi gwybod i'r Llywydd am bryderon Peter Black.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**